

YMWELIADAU SAFLE

Cofnodion yr ymweliad safle rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2022

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd) Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd) Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Jackie Lewis, Ken Taylor a Robin Williams
WRTH LAW:	Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ), Uwch Swyddog Cynllunio (SOH), Peiriannydd Grŵp (Rheoli Datblygiadau a Rheoli Traffig) (Priffyrdd) (AR), Swyddog Pwyllgorau (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorwyr John I Jones, Dafydd Roberts a Liz Wood
ALSO PRESENT:	Dim

1 FPL/2022/195 - CAIS LLAWN AR GYFER CODI TYRBIN GWYNT 13.5 METR O UCHDER, 5KW YM MHENDREF, LLANFAIRYNGHORNWY

Dangoswyd fideos o'r safle a lleoliad arfaethedig y tyrbín gwynt i Aelodau ynghyd â fideos o'r eiddo drws nesaf a'r uned wyliau a gymeradwywyd yn ddiweddar. Dangoswyd fideos hefyd o'r maes gweryslla cyfagos a'r llwybr troed a oedd yn pasio'r tyrbín gwynt arfaethedig. Mae'r maes gweryslla tua 120m i 135m o'r cais. Hysbyswyd Aelodau y byddai uchder y tyrbín gwynt yn 14.5m i dop y tyrbín. Codwyd cwestiynau am y lefelau sŵn arfaethedig a fyddai'n dod o'r tyrbín a gofynnwyd am gynnwys manylion yn adroddiad y Swyddog Achos.

**CYNGHORYDD NEVILLE EVANS
CADEIRYDD**